# Examination of the Cardiff Replacement Local Development Plan/ Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

**Inspectors/Arolygwyr:** Gareth Hall BSc (Hons) DipTP MRTPI and Anthony Thickett BA(Hons) BTP MRTPI

**Programme Officer/Swyddog Rhaglen:** Kerry Trueman

**Email:** kerry.trueman@cardiff.gov.uk / **E-bost:** kerry.trueman@caerdydd.gov.uk

## Inspectors' Questions

1. The Edge Analytics paper LDP Demographics - Update the Evidence, dated 2021 is based on Welsh Government 2014-based and 2018-based scenarios. Welsh Government published 2022 based Local authority household projections for Wales in November 2025. You will see Cardiff is projected to have the second highest percentage increase in the number of households between 2022 and 2032 911 (11.1%).

   Please provide updated evidence based on the 2022 projections. We will also need the Housing Background paper (February 2025) to be updated too please.

2. The Inspectors ask if the Council produced an urban capacity study to the support the RDLP's strategy *'to meet the majority of housing land required during the plan period to 2036 through a range of brownfield sites within the existing settlement boundary'* (RDLP 5.13). If so, can it be added to the evidence base please? If not, the Inspectors would like to know why?

3. In addition, the Development Plans Manual (5.125) requires the production of an

## Cwestiynau'r Arolygwyr

1. Mae papur Edge Analytics, Demograffeg y CDLl - Diweddaru'r Dystiolaeth, dyddiedig 2021, yn seiliedig ar sefyllfaoedd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014 a 2018. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2022 ym mis Tachwedd 2025. Amcanestynnir y bydd gan Gaerdydd yr ail gynnydd canrannol uchaf yn nifer yr aelwydydd rhwng 2022 a 2032 911 (11.1%).

   Rhowch dystiolaeth wedi'i diweddaru yn seiliedig ar amcanestyniadau 2022. Bydd angen diweddaru'r papur Cefndir Tai (Chwefror 2025) hefyd os gwelwch yn dda.

2. Mae'r Arolygwyr yn gofyn a yw'r Cyngor wedi llunio astudiaeth capasiti trefol i gefnogi strategaeth y CDLlN *'i geisio diwallu'r rhan fwyaf o'r tir ar gyfer tai sydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036 drwy ystod o safleoedd tir llwyd o fewn ffin bresennol yr anheddiad.' (CDLlN 5.13).* Os felly, a ellir ei hychwanegu at y sylfaen dystiolaeth os gwelwch yn dda? Os na, hoffai'r Arolygwyr wybod pam?

3. Yn ogystal, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (5.125) yn ei gwneud yn ofynnol i

Infrastructure Plan to demonstrate how infrastructure of the appropriate capacity, location, funding and timing, will be in place to support the implementation and delivery of the LDP. If an Infrastructure Plan has been produced it should be included in the evidence base. If there is no Infrastructure Plan, the Inspectors would like to know how the Council proposes to demonstrate the essential and necessary infrastructure listed in Policy SP5 will be *'delivered in a timely manner to meet the needs of existing and planned communities.'*

4. The Stage 2 Strategic Flood Consequence Assessment (SFCA) states it should be read alongside the South-East Wales Stage 1 SFCA.

   The Inspectors request the Stage 1 SCFA be added to the evidence base. Please let me know when that has been done.

   In your response to NRW's comments on the SFCA, you acknowledge additional information should be included in the SFCA (Rep 118/42). NRW seek further information in the SFCA in relation to some allocations regarding the potential for breach or overtopping of flood defences within a TAN 15 Defended Zone. The Inspectors would like to know when an updated SFCA will be available.

Gynllun Seilwaith gael ei lunio i ddangos sut y bydd seilwaith o'r capasiti, y lleoliad, y cyllid a'r amseriad priodol ar waith i gefnogi gweithredu a chyflawni'r CDLl. Os yw Cynllun Seilwaith wedi'i lunio, dylid ei gynnwys yn y sylfaen dystiolaeth. Os nad oes Cynllun Seilwaith, hoffai'r Arolygwyr wybod sut mae'r Cyngor yn bwriadu dangos y bydd y seilwaith hanfodol ac angenrheidiol a restrir ym Mholisi SP5 yn cael ei *'ddarparu'n amserol i ddiwallu anghenion cymunedau presennol a chynlluniedig*.'

4. Mae'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLlS) Cam 2 yn nodi y dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag ACLlS Cam 1 De-ddwyrain Cymru.

   Mae'r Arolygwyr yn gofyn i'r ACLlS Cam 1 gael ei ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth. Rhowch wybod i mi pan fydd hynny wedi'i wneud.

   Yn eich ymateb i sylwadau CNC ar yr ACLlS, rydych yn cydnabod y dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr ACLlS (Rep 118/42). Mae CNC yn gofyn am ragor o wybodaeth yn yr ACLlS mewn perthynas â rhai dyraniadau ynghylch y posibilrwydd o dorri neu orlifo amddiffynfeydd llifogydd o fewn Parth Amddiffynedig NCT 15. Hoffai'r Arolygwyr wybod pryd y bydd ACLlS wedi'i ddiweddaru ar gael.